

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Medi 2023

<b>YN BRESENNOL:</b>	Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) Y Cynghorydd Euryrn Morris (Dirprwy Gadeirydd)  Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones, Keith Roberts, Liz Wood.  Aelodau Lleyg: William Parry, Michael Wilson
<b>WRTH LAW:</b>	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitemau 3 a 4) Pennaeth Archwilio a Risg Mewnol (AS) Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 5) Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 3) Rheolwr Hamdden (ar gyfer eitem 3) Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol (ar gyfer eitemau 3 a 4) Prif Archwilydd (NW) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gwe-ddarlledu (FT)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Margaret Roberts, Ieuan Williams, Llinos Medi (Arweinydd), Carys Edwards (Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorwyr Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid), Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Euros Lake (Archwilio Cymru), Elizabeth Humphrey (CIPFA), Bethan H. Owen, (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifyddu, Bryn Owen (Uwch Archwilydd Mewnol)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i Elizabeth Humphrey o CIPFA a oedd yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel asesydd annibynnol o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, MBE a Mrs Sharon Warnes, Aelod Lleyg a oedd yn absennol oherwydd salwch ac ar ran y Pwyllgor dymunodd wellhad buan i'r ddau ohonynt.

### 1 **DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## **2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf, 2023 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

Yn dilyn o hynny - holodd y Cadeirydd a fu unrhyw adborth ar yr awgrym a wnaed yn y cyfarfod diwethaf i sefydlu swyddfa rheoli rhaglenni bwrpasol i oruchwylio'r gwaith o gyflawni prosiectau cyfalaf y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai'n holi'r Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad p'un ai oedd yr awgrym wedi'i gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac y byddai'n diweddarau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

## **3 ADRODDIAD BLYNYDDOL PRYDERON, CWCYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro oedd yn nodi materion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ynghyd â nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a wnaed o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2022 a 31 Mawrth, 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai lle nad oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar wahân o dan Bolisi Gwasanaethau Cymdeithasol – Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r ffordd yr ymdriniwyd â chwynion a phryderon gan wasanaethau'r Cyngor o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion ffurfiol yn ystod 2022/23. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â nifer y pryderon a'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, dadansoddiad o bryderon a chwynion fesul gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau sydd â'r nifer uchaf o bryderon a chwynion a sut y cyfrifwyd y rheini, pa mor brydlon y gwnaeth gwasanaethau ymateb i gwynion, cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'u canlyniad, a'r gwersi a ddysgwyd o'r pryderon a'r cwynion a dderbyniwyd a sut mae'r rheini'n cyfrannu at well arferion a boddhad cwsmeriaid.

Aeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro â'r Pwyllgor drwy brif adrannau'r adroddiad a thynnodd sylw at y prif negeseuon o'r data a gasglwyd. Yn gyffredinol, gellir dod i'r casgliad nad yw cwynion ynghylch Aelodau Etholedig, y Gymraeg (o fewn y Polisi Pryderon a Chwynion) a Chwythu'r Chwiban yn destun pryder ac nad oes angen camau gweithredu penodol pellach. Mae nifer y pryderon a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod wedi cynyddu o 189 yn 2021/22 i 321 yn 2022/23 y gellir eu priodoli'n rhannol i lefel adrodd ormodol gan y Gwasanaeth Tai yn ystod chwe mis cyntaf 2022/23 a oedd yn cynnwys ceisiadau o ddydd i ddydd yn ogystal â phryderon fel y'u diffinnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Pe bai'r data wedi'i adrodd yn gywir, amcangyfrifir y byddai cynnydd o 189 i 236 yn ffigwr cywirach. Mae nifer y cwynion wedi gostwng o 54 yn 2021/22 i 40 yn 2022/23 gyda'r nifer uchaf o gwynion yn yr adran Adnoddau (11) a Thai (10). Ni ymchwiliwyd i unrhyw gwynion gan OGCC yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r amser ar gyfer ymateb i gwynion yn parhau i fod yn broblem gyda pherfformiad wedi gostwng 5.2% o'i gymharu â hynny yn 2021/22. Mae'r wybodaeth a gesglir ar gyfer cwynion a phryderon hefyd yn dangos patrwm o wendidau o ran gofal cwsmeriaid / gwasanaeth cwsmeriaid yn enwedig cyfathrebu parhaus ynglŷn ag amserlenni ac oedi.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a nodwyd y pwyntiau canlynol –

- Dim ond 74.4% o gwynion a atebwyd o fewn y cyfnod gofynnol yn 2022/23 a bod llawer o'r pryderon/cwynion a dderbyniwyd yn nodi bod cyfathrebu wedi bod yn broblem ac y gallai cyfathrebu gwell fod wedi atal pryder rhag cael ei godi. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod gwersi'n cael eu dysgu a bod y dysgu'n cael ei rannu rhag bod pryderon tebyg yn codi yn y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod argymhelliad rhif tri o'r adroddiad yn mynd i'r afael yn rhannol â gwella gwasanaeth cwsmeriaid. Mae'r wybodaeth a gesglir bellach yn llawer mwy manwl ac mae gwasanaethau'n cael eu herio ynghylch y rhesymau dros gwynion a'r camau sy'n cael eu cymryd i ddatrys y materion sy'n codi. Mae dadansoddiad wedi dangos bod gwasanaeth cwsmeriaid yn thema amlwg yn y cwynion a'r pryderon a godir. Felly bwriedir cynnal hyfforddiant ar wasanaeth cwsmeriaid ar draws y sefydliad gan ganolbwyntio i ddechrau ar y gwasanaethau hynny gyda'r nifer fwyaf o gwynion/pryderon/ymatebion hwyr ac yna ymestyn yr hyfforddiant i'r holl staff sy'n wynebu'r cyhoedd.

- Cynnydd yn nifer y pryderon a godwyd yn erbyn y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaeth Hamdden.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaeth Tai, ar ôl gweithredu trefn adborth newydd, bod lefel ormodol o adrodd yng ngham cychwynol y broses weithredu gan fod staff wedi cynnwys ceisiadau gwasanaeth o ddydd i ddydd yn ogystal â phryderon fel y'u diffinnir gan OGCC. Arweiniodd hynny at gynnydd sylweddol yn nifer y pryderon a gofnodwyd. Heb gynnwys y pryderon hynny a gam-gofnodwyd, amcangyfrifir y byddai nifer y pryderon wedi bod yn 95, cynnydd o 42 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Pryder cyffredin oedd y diffyg cyfathrebu, yn enwedig i roi gwybod i denantiaid am oedi o ran gwneud gwaith ar eiddo neu bod gwaith heb ei ddechrau. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio gwella'r broses gyfathrebu gyda thenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau. O ran pryderon a fynegwyd am yr amser a gymerir i wneud gwaith trwsio a chynnal a chadw i eiddo, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn wynebu problemau oherwydd prinder deunyddiau a diffyg crefftwyr medrus ar gael ac mae hynny wedi arwain at oedi cyn dechrau ar waith.

Wrth sôn am y cynnydd yn nifer y pryderon a gofnodwyd yn erbyn y Gwasanaeth Hamdden yn 2022/23, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ei bod yn bwysig gosod y 48 o bryderon a dderbyniwyd yng nghyd-destun 7,000 o aelodau'r gwasanaeth. Mae llawer o'r pryderon a fynegwyd yn ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid a allai fod yn adlewyrchiad o ddiffyg profiad staff newydd sy'n cael hyfforddiant ar hyn o bryd a'u bod yn anghyfarwydd â safon y gwasanaeth cwsmeriaid a ddisgwylir. Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaeth Hamdden at gamau cywiro a oedd yn cael eu cymryd o ran defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r dysgu sy'n ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid yn enwedig yng nghanolfannau hamdden Amlwch a Chaergybi a hefyd mewn ymateb i bryderon penodol ynghylch ansawdd gwersi nofio a lefelau glendid.

- Gallai'r cynnydd yn nifer y pryderon a nifer yr un pryderon a ail-godir o natur debyg ddangos nad yw gwersi'n cael eu cynnwys yn ddigonol o fewn gwasanaethau ac nad yw'r materion a achosodd y pryderon hynny wedi cael sylw llawn.

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fel y gwasanaeth gyda'r nifer uchaf o bryderon a ail-godir drwy ddweud, er bod nifer y pryderon a gofnodir ar gyfer y gwasanaeth wedi cynyddu, rhaid ei ystyried yng nghyd-destun nifer y tenantiaid y mae Gwasanaethau Tai yn darparu ar eu cyfer. Mae'r ffocws ar wella cyfathrebu â thenantiaid fel y prif fater, gan gynnwys drwy gyfathrebu'n uniongyrchol yn hytrach nag yn anuniongyrchol drwy'r tîm gofal cwsmeriaid.

- Y cyfrwng a ddefnyddir ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys cyfryngau digidol a chymdeithasol.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaeth Tai bod sawl cyfrwng yn cael eu defnyddio i roi gwybodaeth i denantiaid, gan gynnwys cylchlythyr tenantiaid a phorth pwrpasol yn ogystal â thudalen Facebook Tai Môn, a thrwy ddulliau mwy arferol, drwy e-bost a dros y ffôn ar gyfer cyfathrebu un i un.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wybod i'r Pwyllgor am bwysigrwydd ystyried y cynnydd yn nifer y ceisiadau, ymholiadau a gofynion y mae gwasanaethau yn ymdrin â nhw yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw, yn enwedig felly'r gwasanaethau a'r timau hynny sy'n wynebu cwsmeriaid sy'n anochel yn arwain at dderbyn mwy o gwynion.

#### **Penderfynwyd –**

- **Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â phroses gwynion y Cyngor ynglŷn â'r Gymraeg (o dan y Polisi Pryderon a Chwynion), cwynion mewn perthynas ag Aelodau etholedig a'r Polisi/Canllaw Chwythu'r Chwiban.**
- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n fodlon bod yr adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd rhesymol bod gan y Cyngor brosesau priodol ar waith o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a bod gwasanaethau'r Cyngor yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r disgwyliadau a nodir yn y polisi hwnnw.**
- **Gofynnir i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor adolygu'r hyfforddiant Gwasanaeth Cwsmeriaid a ddarperir i staff sy'n wynebu'r cyhoedd, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â'r nifer uchaf o bryderon/cwynion/ymatebion hwyr a sicrhau bod unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw'n cael eu gweithredu. Cynhelir yr adolygiad hwn yng nghyd-destun y Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid diwygiedig a'r Polisi Pryderon a Chwynion diwygiedig.**

#### **4 LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Ers 2006, mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith a wnaed gan ei swyddfa dros y deuddeng mis diwethaf. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad ar gyfer pob cyngor gyda'r llythyr blynyddol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r adroddiad gan gadarnhau bod y Llythyr Blynyddol yn ymwneud yn unig â chwynion gwasanaeth yn erbyn y Cyngor a gyflwynwyd i OGCC yn ystod 2022/23. Mae'r Llythyr hefyd yn cynnwys adran ar gwynion a wnaed o dan y Cod Ymddygiad i Aelodau. Mae'r negeseuon allweddol yn dangos bod 25 o gwynion gwasanaeth wedi eu cyflwyno i OGCC yn y flwyddyn, 29 cwyn yn llai na'r flwyddyn flaenorol. O'r rheini, nid oedd angen i Swyddfa OGCC ymchwilio i 20 ohonynt a deliwyd â 5 o'r cwynion trwy ddatrysiaid cynnar. Gwnaed un gŵyn Cod Ymddygiad yn erbyn aelod o'r Cyngor Sir ond ni ymchwiliwyd iddi a gwnaed un gŵyn yn erbyn Cyngorydd Tref / Cymuned yn ystod 2022/23, ond daeth yr ymchwiliad i ben. Fel cyngor, mae perfformiad Ynys Môn yn cymharu'n foddhaol â chynghorau eraill yng Nghymru o ran cwynion ac mae'n parhau'n gyson fel y dangosir yn y tabl yn Atodiad A i'r Llythyr.

Yn ogystal â gofyn i'r Llythyr gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith a bod canlyniad y ddau'n cael ei rannu â Swyddfa OGCC, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn i'r Cyngor barhau i ymgysylltu â gwaith safonau cwynion ei Swyddfa, cael mynediad at hyfforddiant i staff y Cyngor, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod y camau hynny yn y broses o gael eu gweithredu fel y manylir yn yr adroddiad.

Nododd y Pwyllgor, er bod nifer y cwynion yn gymharol isel, bod 24% o'r cwynion hynny'n ymwneud â'r modd y deliodd y Cyngor â'r cwynion, a gofynnodd am esboniad ar gyfer hyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, er mwyn mynd i'r afael â materion gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn delio â chwynion a'r broses delio â chwynion ei hun, cynigir datblygu strategaeth hyfforddi ac asesu anghenion hyfforddi staff ac Aelodau Etholedig fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Gall y materion sy'n ymwneud â delio â chwynion ddeillio o ymateb hwyr, ymateb annigonol, diffyg mynd i'r afael â phob agwedd ar gŵyn a/neu fethiant i ddeall cwyn yn llawn. Gan hynny cynigir y rhaglen hyfforddiant a argymhellir.

#### **Penderfynwyd –**

- **Nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2022/23.**
- **Cefnogi'r dasg o weithredu Polisi Enghreifftiol OGCC.**
- **Cefnogi'r dasg o ddatblygu strategaeth hyfforddi.**
- **Cefnogi'r dasg o ddatblygu asesiad anghenion hyfforddi a chyflwyno hyfforddiant addas yn ôl yr angen.**
- **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol a chytuno i weithredu elfennau y cyfeirir atynt yn ei Llythyr Blynyddol.**
- **Rhoi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.**

#### **5 ARCHWILIO ALLANOL: ADOLYGIAD O REOLI DATBLYGU A GORFODAETH CYNLLUNIO - CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd y dogfennau canlynol i'w hystyried gan y Pwyllgor -

- Cafodd adroddiad Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru ei gyflwyno er gwybodaeth. Roedd yr adolygiad cenedlaethol yn edrych ar bob agwedd ar awdurdodau cynllunio lleol ac yn asesu cynnydd o ran gweithredu Deddf Cynllunio (Cymru) 2014. Hefyd roedd yn darparu cyd-destun i'r adroddiad adolygu lleol isod.
- Adroddiad Archwilio Cymru ar ei adolygiad o Reoli Datblygu a Gorfodaeth Cynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn.
- Ymateb y sefydliad i argymhellion adroddiad yr adolygiad gan Archwilio Cymru.

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru gan Mr Euros Lake, a ddywedodd fod yr adroddiad cenedlaethol yn tynnu sylw at rai o'r heriau sy'n wynebu awdurdodau cynllunio lleol o ran nad yw'r capasiti'n ymestyn yn ddigon pell a bod llai o adnoddau a bod hynny'n cael effaith ar berfformiad a gwydnwch a bod y themâu hyn yn cael eu hailadrodd ar lefel lleol. Roedd yr adolygiad o'r gwasanaeth rheoli datblygu a chynllunio yn Ynys Môn yn ceisio asesu sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau hyn o fewn y gwasanaeth ac a oes ganddo

wasanaeth rheoli datblygu a gorfodaeth cynllunio effeithiol a gwydn. Yn gyffredinol, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Cyngor wedi cryfhau capasiti a diwylliant ei wasanaeth cynllunio ond bod angen mwy o wydnwch i oresgyn ansicrwydd yn y dyfodol. Canfu'r adolygiad fod –

- Gan y Cyngor drefniadau corfforaethol wedi'u hen sefydlu i fonitro a dysgu o brofiadau'r gorffennol a'i fod wedi buddsoddi yn y gwasanaeth cynllunio i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.
- Mae'r Cyngor wedi gwella capasiti a morâl o fewn y gwasanaeth ond mae angen iddo ddatblygu a chadw ei weithlu er mwyn cynnal y cynnydd hwn..
- Mae heriau sylweddol mewn perygl o danseilio gwytnwch y gwasanaeth yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae'r adroddiad yn gwneud pedwar argymhelliad i wella'r gwasanaeth ymhellach, gan gynnwys gwella gallu'r Cyngor i liniaru ac ymateb i risgiau, gwella sut mae'n ystyried risgiau wrth gynllunio adnoddau, yn ogystal ag adeiladu sgiliau a phrofiad o fewn y gwasanaeth cynllunio a fydd hefyd yn helpu i gryfhau trefniadau parhad busnes y Cyngor a gwella gwydnwch.

Rhoddodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ymateb y gwasanaeth i'r adroddiad a chroesawodd yr adolygiad gan ddweud ei fod yn amserol o ystyried y pwysau a fu ar y gwasanaeth ac sydd arno ar hyn o bryd. Nid yw'r heriau sy'n wynebu gwasanaeth cynllunio a gorfodi Ynys Môn mewn perthynas ag adnoddau, capasiti a llwyth gwaith yn annhebyg i'r rhai sy'n wynebu awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru. Yn gyffredinol, teimlir bod yr adroddiad yn rhoi gwerthusiad cadarnhaol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth cynllunio yn Ynys Môn, er mai megis dechrau mae'r gwaith i wella'r gwasanaeth, mae'n yn ymwybodol bod angen gwneud mwy o waith. Fodd bynnag, ystyrir bod gan y gwasanaeth reolaeth ac arweinyddiaeth gadarn erbyn hyn ac mae wedi gosod blaenoriaethau clir ar gyfer y tymor canolig. Mae'r gwasanaeth yn derbyn argymhellion adolygiad Archwilio Cymru a chytunwyd ar gynllun gweithredu. Bydd y cynllun gwella gwasanaethau presennol yn cael ei adolygu i nodi meysydd a blaenoriaethau sydd angen sylw a bydd cynllun diwygiedig i fynd i'r afael â'r meysydd hynny yn cael ei baratoi. Mae'r gwaith ar y cynllun presennol yn parhau ar ôl y tarfu yn sgil y pandemig ac er bod Covid wedi arwain at atal gweithgaredd, mae'r newid i weithio drwy ddulliau rhithwir wedi cyflymu'r broses o adolygu diwylliant ac ymarfer o fewn y gwasanaeth ac yn hynny o beth mae wedi bod yn fuddiol. Er bod y risgiau a'r pryderon sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn cael eu cofnodi yng nghofrestr risg ehangach y gwasanaeth, bydd y gwaith o baratoi'r cynllun gwella yn cynnwys datblygu cofrestr risg penodol ar gyfer y gwasanaeth cynllunio a fydd yn cael ei diweddarau a'i monitro'n rheolaidd. Bydd archwiliad sgiliau hefyd yn cael ei gynnal a'r allbwn yn bwydo i mewn i gynllun datblygu gweithlu'r gwasanaeth. O ran adnoddau, mae'r sefyllfa ariannol yn heriol ac er y byddai'r gwasanaeth yn dymuno cryfhau capasiti, rhaid iddo fod yn realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Bydd y gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod ei staff yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol gan gofio hefyd ei bod yn bwysig cadw'r arbenigedd sydd yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Wrth ystyried yr adroddiad, cyfeiriodd y Pwyllgor at Arddangosyn 2 a oedd yn dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn dangosyddion cenedlaethol allweddol yn 2018/29 a nododd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol gallu gweld perfformiad presennol y gwasanaeth cynllunio mewn ffordd debyg wedi'i feincodi yn erbyn perfformiad awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru. Gwnaed sylwadau hefyd am gyfran yr apeliadau cynllunio a ganiatawyd a chodwyd cwestiwn ynglŷn â phwysigrwydd polisiau cynllunio lleol a'r cyd-destun lleol mewn penderfyniadau apêl.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Robert, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd fod apeliadau cynllunio yn faes cymhleth ond ei bod hi'n bersonol fel Deilydd y Portffolio yn fodlon â'r niferoedd presennol a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddehongli polisi o safbwynt yr awdurdod cynllunio lleol a'r arolygiaeth. Mae pob apêl a ganiateir yn cael ei hadolygu gan y gwasanaeth i weld a oes unrhyw wahaniaethau o ran dehongli.

**Penderfynwyd nodi adroddiad Archwilio Cymru ar ei adolygiad o Reoli Datblygu a Gorfodi Cynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn ynghyd ag ymateb y sefydliad i'r adroddiad.**

**6 ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD CHWARTEROL AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru ar ei Raglen Waith a'i Amserlen ar 30 Mehefin, 2023 er gwybodaeth y Pwyllgor. Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a statws gwaith archwilio ariannol a pherfformiad Archwilio Cymru sy'n cynnwys astudiaethau wedi'u cynllunio a'u cyhoeddi ac roedd yn cynnwys gwaith Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rhoddodd Yvonne Thomas Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru drosolwg o gynnydd y gwaith archwilio ariannol gan gadarnhau bod y gwaith maes mewn perthynas ag archwilio datganiad cyfrifon 2022/23 y Cyngor yn dal i fynd rhagddo ac mai'r nod o hyd yw cwblhau'r broses honno erbyn diwedd mis Tachwedd ac adrodd yn ôl ar y canlyniad i'r Pwyllgor hwn ddechrau mis Rhagfyr 2023. Mae'r broses ardystio grantiau wedi newid gyda'r gwaith ar ardystio Cyfraniadau Pensiwn Athrawon a hawliadau grant Ardrethi Annomestig bellach yn cael ei wneud gan ddim canolog yn hytrach na thîm lleol. Mae'r gwaith maes ar gyfer ardystio ffurflen grantiau Ardrethi Annomestig 2022/23 ar y gweill ac mae'r ffurflen ar gyfer Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer 2022/23 bellach wedi'i dderbyn. Anelir at gwblhau'r ddau archwiliad erbyn 17 a 30 Tachwedd, yn y drefn honno. Mae'r archwiliad o ffurflen grant Cymhorthdal Budd-dal Tai 2020/21 bron â chael ei gwblhau ac mae'r llythyr amodi drafft gyda'r Cyngor i'w adolygu. Unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, gellir nodi unrhyw brofion ychwanegol sydd eu hangen er mwyn gallu cwblhau hawliad grant Cymhorthdal Budd-dal Tai 2021/22 a gall y gwaith fynd rhagddo.

Adroddodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad ar gynnydd y rhaglen Archwilio Perfformiad gan gadarnhau bod cwblhau rhaglen 2022/23 yn cael blaenoriaeth ynghyd â darnau allweddol o waith o raglen 2023/24. O ran gwaith sicrwydd ac asesu risg 2022/23, mae'r adroddiad ar ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad wedi'i ddrafftio a'i rannu ar gyfer sylwadau rheolwyr a threfnwyd y cyfweiliadau mewn perthynas â'r adolygiad archwilio ar gyfer gosod amcanion llesiant. Mae'r adroddiad lleol drafft mewn perthynas â'r adolygiad Thematig Digidol yn cael ei adolygu. Mae adolygiadau archwilio perfformiad 2023/24 yn cael eu cwmpasu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac mae gwaith wedi dechrau ar yr adolygiad sicrwydd ac asesu risg.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) fod Datganiad drafft 2022/23 o'r Cyfrifon wedi'i gwblhau erbyn y dyddiad targed diwedd mis Mehefin a oedd yn golygu bod y gwaith archwilio wedi gallu dechrau'n brydlon. Nid oes unrhyw faterion wedi'u codi hyd yma a fyddai'n amharu ar y dyddiad cwblhau ddiwedd mis Tachwedd.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Pwyllgor ynghylch effaith yr ISA 315 diwygiedig ar lwyth gwaith yr archwilwyr, dywedodd Yvonne Thomas, er bod y newidiadau i'r safon wedi golygu mwy o waith i archwilwyr, fod adnoddau ychwanegol wedi'u rhoi yn y broses ac ni ragwelir y bydd yn rhwystr i'r bwriad o gwblhau'r archwiliad ddiwedd mis Tachwedd.

## **Penderfynwyd nodi Diweddariad Chwarter 1 2023/24 Archwilio Cymru ar ei Raglen Waith a'i Amserlen.**

### **7 ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys adolygiad o weithgarwch rheoli'r trysorlys yn 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad blynyddol rheoli'r trysorlys o weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2022/23.

Mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau ariannol canlynol ym mlwyddyn ariannol 2022/23 –

- Ffactorau allanol gan gynnwys y cyd-destun economaidd, perfformiad cyfraddau llog ac effaith Covid-19.
- Ffactorau mewnol gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a'r balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf.
- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn 2022/23 gan gynnwys rheoli dyledion, polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- Rheoli'r Trysorlys drwy Ddangosyddion Darbodus a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli.
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn
- Rhagolygon ar gyfer 2023/24 a thu hwnt.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y tabl ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad a oedd yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol y Cyngor am y flwyddyn – un o'r dangosyddion darbodus gofynnol a sut y cafodd hyn ei ariannu. Roedd y gyllideb yn dangos tanwariant o £14m sy'n llithriad llawer llai o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol gyda'r prosiectau a restrir yn y paragraff yn gyfrifol am y tanwariant. Nodir cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod y Cyngor ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad ac maent yn dangos cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio sy'n werth cyfanswm o £59.779m. Ni fu unrhyw fenthyciadau allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, yn hytrach, mae'r Cyngor wedi parhau i weithredu ei strategaeth fenthycia fewnol gan fod cyfraddau buddsoddi wedi bod yn is na chyfraddau benthycia hirdymor sy'n golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid sicrhau'r gwerth orau drwy beidio â chymryd benthyciadau allanol newydd ond yn hytrach, defnyddio balansau arian parod i ariannu gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Mae'r tabl ym mharagraff 3.3.2 o'r adroddiad yn dangos mai sefyllfa fenthycia fewnol y Cyngor ar 31 Mawrth, 2023 oedd £20.3m. Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor ymrwymo i unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill. Derbyniwyd benthyciad di-log o £1.123m yn y flwyddyn i ariannu gwariant cyfalaf ar brosiectau arbed ynni a bydd yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau.

Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuo tymor byrrach, er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Gwelwyd gwelliant mewn enillion ar fuddsoddiadau a godwyd trwy gydol 2022/23 wrth i gyfraddau llog godi. Roedd y gyllideb llog o £5k a osodwyd ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y llog a dderbyniwyd y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd y ffaith bod cyfraddau llog yn codi'n golygu bod mwy o gyfleoedd i fuddsoddi arian dros ben gyda balansau cyfartalog o £55.8m yn sicrhau £0.863m ar gyfradd llog gyfartalog o 1.55%. Yr anfantais i gyfraddau llog uwch yw bod benthycia wedi dod yn fwy costus. Ceir manylion yr holl fuddsoddiadau newydd yn y flwyddyn gyda'u cyfraddau llog yn



y tabl ym mharagraff 3.6 yr adroddiad. Y strategaeth wrth symud ymlaen yw osgoi buddsoddi gydag awdurdodau lleol gan fod balansau ariannol y Cyngor bellach yn lleihau, mae mwy o opsiynau ar gael gyda'r banciau ac oherwydd yr ansicrwydd ariannol, mae mwy o risg yn gysylltiedig ag awdurdodau lleol wrth i nifer o gynghorau gael eu hunain mewn trafferthion ariannol.

Nodir egwyddorion strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn adran 4 yr adroddiad ac yn adran 5 ceir crynodeb o'r dangosyddion darbodus y cytunwyd arnynt a'r hyn y maent yn ei olygu. Mae Adran 6 yr adroddiad yn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a ragwelwyd ar gyfer 2022/23 ac yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r perfformiad hwn yn dangos bod gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig i sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn peri unrhyw risg ariannol sylweddol i'r Cyngor o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi a chael sicrwydd o sefyllfa ariannol gadarn y Cyngor a'i ddull darbodus ac ystyriol o fenthyca a buddsoddi a oedd yn golygu ei fod mewn sefyllfa fwy cadarn na llawer o gynghorau sydd bellach mewn trafferthion ariannol oherwydd bod ganddynt lefelau uchel o ddyled ar ôl cymryd benthyciadau sylweddol. Wrth drafod yr adroddiad gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau am wariant cyfalaf y Cyngor, yn benodol –

- Yr anghysondeb rhwng cyfanswm y gwariant cyfalaf amcangyfrifedig o £55m ar gyfer 2022/23 a nodwyd ym mharagraff 3 yr adroddiad a'r £35.961m a nodwyd fel cyfanswm gwariant cyfalaf gwreiddiol o dan y Dangosyddion Darbodus ym mharagraff 6.
- P'un a yw arian cyfalaf heb ei wario yn cael ei gymryd yn ôl gan Lywodraeth Cymru.
- A oes digon o adborth ar gynnydd prosiectau cyfalaf i sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian i gyflawni ei ymrwymadau ariannol pan fônt yn ddyledus.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod dull y Cyngor o reoli'r trysorlys wedi bod yn wrth-risg mewn sawl ffordd; mae'r cynghorau hynny sydd bellach mewn trafferthion ariannol wedi defnyddio eu pwerau benthyca i fuddsoddi mewn mwy o fentrau risg uchel i gynhyrchu incwm tra bod yr amodau economaidd a'r farchnad yn ddiweddar wedi golygu nad yw'r enillion disgwylidig wedi'u sicrhau gan adael y cynghorau hynny â dyledion sylweddol. Mae'r Cyngor ym Môn wedi bod yn ofalus yn gyson wrth fuddsoddi ac wedi targedu gwariant cyfalaf i feysydd blaenoriaeth lle mae'r angen mwyaf. Mae hefyd wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ddarbodus gan gydnabod yr angen ar adegau i gydbwysu cyllidebau heb droi at gronfeydd wrth gefn a gwario ar eitemau y mae am wario arnynt. Mae hyn wedi cynnal lefel iach o falans cronfeydd wrth gefn. Cronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor yw ei gronfeydd ar gyfer "cyfnodau anodd" i'w helpu i ddelio ag argyfyngau a chostau annisgwyl.

O ran gwariant cyfalaf, y ffigwr o £35.961m yw'r gyllideb gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022. Ychwanegwyd at hynny'r llithriad o'r flwyddyn flaenorol sydd wedi'i gario drosodd gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith yn ogystal â grantiau cyfalaf a ddyfernir yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyllideb gyfalaf ar y cychwyn fel y'i cymeradwyir gan y Cyngor yn newid dros amser ac mae'r newidiadau hynny'n cael eu hawdurdodi gan y Pwyllgor Gwaith, weithiau'n ôl-weithredol yn achos grantiau sydd eisoes wedi'u derbyn. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau bod yr holl gyllid grant yn cael ei wario a dim ond ar achlysuron prin y dychwelwyd arian grant nas defnyddiwyd i Lywodraeth Cymru. Pe bai prosiect a ariennir gan grant yn cael ei gwblhau o dan y gyllideb, yna byddai'r hawliad grant terfynol yn adlewyrchu hynny; mewn achos o lithriad mae'r Cyngor yn sicrhau bod yr ariannwr grant yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig fel nad oes unrhyw arian yn cael ei golli am beidio â chadw at amodau'r cynnig grant. Mae gwariant

cyfalaf y Cyngor yn cael ei fonitro'n chwarterol gyda lefel uwch o wariant cyfalaf yn yr 2il a'r 3ydd chwarter pan fo'r tywydd yn fwy ffafriol. O ran rheoli arian parod mae'r Cyngor yn cadw oddeutu £10m mewn arian parod sy'n ddigon i gyflawni ei ymrwymadau ariannol parhaus ar unwaith, telir llog ar yr arian sydd gan y Cyngor yn y cyfrifon sydd ar gael iddo, er ei fod ar gyfradd is na'r cronfeydd hynny a fuddsoddwyd am gyfnod penodol.

Gwnaeth y Pwyllgor bwynt cyffredinol ynghylch cymhlethdod y gofynion adrodd ariannol a oedd yn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor gyfleu ei sefyllfa ariannol a sut mae'n gwario ei arian mewn ffordd sy'n dryloyw ac yn ddealladwy i'r cyhoedd yn gyffredinol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 fod adroddiadau ariannol awdurdodau lleol, yn enwedig o ran ei ddatganiadau ariannol, yn amodol ar nifer o godau ymarfer a rheoliadau sy'n pennu beth a sut y caiff gwybodaeth ei hadrodd. Y gobaith yw drwy broses ddemocrataidd y Cyngor, yn benodol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn, y gall aelodau etholedig roi sicrwydd i drethdalwyr cyngor Ynys Môn fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

#### **Penderfynwyd –**

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2022/23 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.**
- **Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2022/23 yn yr adroddiad hwn.**
- **Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2022/23 a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith gydag unrhyw sylwadau.**

#### **8 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg oedd yn ei ddiweddarau am y sefyllfa fel yr oedd hi ar 3 Medi, 2023 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad blaenorol ar 31 Mawrth 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol. Darparwyd y canlynol i aelodau'r Pwyllgor sef copïau o'r chwe darn canlynol o waith sicrwydd a gwblhawyd yn y cyfnod mewn perthynas â Pharhad y Gwasanaeth TG - Gwe-rwydo (Dilyn i fyny) (Sicrwydd Rhesymol); Rheoli Trwyddedau Meddalwedd TG (Dilyn i fyny) (Sicrwydd Rhesymol); Cardiau Tanwydd (Sicrwydd Rhesymol); Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu (Risg Strategol YM5) (Sicrwydd Rhesymol); ac Adennill Dyledion Treth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Mân Ddyledion (Sicrwydd Cyfyngedig).

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r adroddiad a chyfeiriodd at seithfed darn o waith a wnaed yn y cyfnod mewn perthynas â Grant Adfywio Gogledd Cymru nad oedd lefel sicrwydd ganddo gan ei fod yn ddarn ymchwiliol o waith a ysgogwyd gan atgyfeiriad gan aelod o'r cyhoedd. Mae'r adroddiad yn amlinellu cwmpas a chanlyniad yr ymchwiliad. O ran yr adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas ag Adennill Dyledion Treth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Mân Ddyledion, codwyd 8 mater/risg a chytunwyd ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr. Mae sicrwydd wedi'i ddarparu bod cynlluniau i fynd i'r afael â'r materion/risgiau a nodwyd erbyn mis Ionawr 2024. Ar hyn o bryd mae gan Archwilio Mewnol 12 darn o waith ar y gweill fel y'u rhestrir yn y tabl ym mharagraff 35 o'r adroddiad ac mae'n gwneud cynnydd da gyda Strategaeth Archwilio Flynyddol 2023/24 ynghyd â Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025. Mae ymarfer recriwtio llwyddiannus diweddar yn golygu mai dim ond un swydd wag sydd yn y gwasanaeth bellach ar lefel Uwch Archwilydd oherwydd secondiad hirdymor.

Mae'r arbedion cyllidebol sy'n deillio o hyn yn cael eu defnyddio i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol.

Amlinellodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y cyd-destun i ddull y Cyngor o reoli ac adennill dyledion gan dynnu sylw at y ffaith bod pandemig COVID a'r argyfwng costau byw wedi gwneud y sefyllfa'n waeth ac wedi ychwanegu at y baich dyledion a'r gwaith sy'n cronni. Disgrifiodd y prosesau sydd ar gael i'r Cyngor wrth geisio adennill Dyledion Treth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Mân Ddyledion a'r cyfyngiadau arnynt, yn enwedig yn achos y Dreth Gyngor lle mae'r gosb o garchar am beidio â thalu wedi ei ddileu neu mewn achosion o galedi neu pan fo unigolion bregus dan sylw, megis gyda dyledion gofal cymdeithasol, mae angen bod yn sensitif wrth ddelio ag achosion o'r fath. Mae'r Tîm Refeniw wedi'i ailstrwythuro i egluro cyfrifoldebau adennill dyledion ac mae adolygiad o brosesau adennill dyledion wedi'i gynnal i ganfod sut y gall y gwasanaeth wneud defnydd mwy effeithiol o wybodaeth o ran allosod data o'r system ac i sefydlu statws dyledion yn well fel nad yw dyledion segur sy'n annhebygol o gael eu hadennill yn aros ar y system am gyfnod hir o amser ac y gellir eu dileu. Adolygir drwg ddyledion i asesu a yw amgylchiadau wedi newid ac i weld a oes modd adennill y ddyled, a gwneir darpariaeth ddrwg ddyledion ar gyfer dyledion yr ystyrir na ellir eu hadennill - amlinellwyd y trefniadau ar eu cyfer i'r Pwyllgor. Mae adolygiad archwilio mewnol wedi cadarnhau'r sefyllfa o ran yr angen i gryfhau prosesau a gweithdrefnau adennill dyledion ac mae cynllun gweithredu i'r perwyl hwnnw wedi'i lunio ac mae rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes yn cael eu gweithredu.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai adolygiad dilynol yn cael ei gynnal ym mis Ionawr, 2024 ac y byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor hwn.

**Penderfynwyd nodi bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

## **9 MATERION A RISGIAU SYDD ANGEN SYLW**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws materion/risgiau sydd angen sylw y mae Archwilio Mewnol wedi'u codi i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol a gadarnhaodd, ar 31 Awst 2023, fod 47 o gamau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw ac sy'n cael eu holrhain gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae chwech ohonynt yn cael eu hystyried yn rhai sylweddol (ambr) a 41 yn rhai cymedrol (melyn) o ran blaenoriaeth risg. Ni chodwyd unrhyw faterion/risgiau coch neu gritigol yn ystod y flwyddyn ac nid oes yr un ohonynt angen sylw. Ar hyn o bryd mae 5 cam gweithredu oedd i fod i gael eu gweithredu erbyn y dyddiad cwblhau, ac maent bellach yn wedi mynd heibio eu dyddiad targed. Mae pedwar o'r rhain (dau wedi'u sgorio'n risg blaenoriaeth sylweddol a dau'n gymedrol), yn berthnasol i archwiliad ar Bensiynau Athrawon fel rhan o waith dilyn i fyny ffurfiol. Mae'r cam arall wedi'i sgorio'n gymedrol o ran blaenoriaeth risg, ac mae'n berthnasol i archwiliad o Gynnal a Chadw Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg – ceir diweddariad ym mharagraff 12 yr adroddiad.

O ran yr holl gamau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw, waeth beth yw'r dyddiad y cytunwyd i'w gweithredu, mae Graff 3 yn dangos bod rheolwyr bellach wedi ymdrin â 77%, ac mae Archwiliad Mewnol wedi dilysu 75%. Mae'r 2% sy'n weddill yn ymwneud ag archwiliad o Galw Gofal, fydd yn cael ei olrhain yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2023. Pan fydd yr holl gamau gweithredu wedi bodloni eu dyddiad targed (gweler Graff 4) mae'n dangos yr ymdriniwyd â 97% o'r camau yr oedd angen gweithredu arnynt.

Er bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu sydd angen sylw'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, mae tri mater/risg yn dyddio'n ôl i 2018/19 a 2019/20 ac mae pob un ohonynt yn gymedrol neu'n felyn o ran blaenoriaeth risg. Darperir diweddariad ar eu statws a'u cynnydd ym mharagraffau 21 a 22. Nid oes unrhyw faterion/risgiau â sgôr sylweddol sy'n dyddio'n ôl ymhellach na 2021/22. Pan fo mater / risg â sgôr sylweddol yn parhau heb ei ddatrys 12 mis ar ôl i'r dyddiad cwblhau gwreiddiol fynd heibio, gofynnir i berchnogion y camau fynychu Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn rhoi rhesymau dros yr oedi mewn mynd i'r afael â'r mater/risg. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw faterion/risgiau sylweddol y mae hyn yn berthnasol iddynt.

**Penderfynwyd nodi cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r Materion/Risgiau Archwilio Mewnol sydd angen sylw.**

**10 ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n cynnwys y Blaen Raglen Waith a Rhaglen Hyfforddiant 2023/24 i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Tynnodd y Pennaeth Archwilio a Risg sylw at yr eitemau a oedd wedi'u haildrefnu ar y rhaglen waith a oedd yn cynnwys hunanasesiad y Pwyllgor sydd i'w ystyried yng nghyfarfod Rhagfyr 2023.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn Blaen Raglen Waith 2023/24 fel un sy'n cyflawni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylich gorchwyl a**
- **Nodi'r newidiadau i'r dyddiadau y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno.**

**Mr Dilwyn Evans  
Cadeirydd**